- charfan arall ym mis Ebrill (plant sydd wedi troi'n 3 oed yn nhymor y gwanwyn).

## Lleoedd meithrin sy'n cael eu cymryd

Canfu dadansoddiad o'r ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg fod llai o blant o ddalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn mynychu dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg o gymharu ag ardaloedd cyfagos.

Ym mis Ionawr 2024

- Mae mwy na hanner y rhai sy'n mynychu meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn mynd i Ysgol Gynradd Groes-wen.

- Dosbarth meithrin Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fyddai wedi bod y dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg agosaf i 23 o blant 'sy'n codi'n 4 oed' pe bai dosbarth wedi cael ei sefydlu yn yr ysgol.

- Roedd 18 o blant 'sy'n codi'n 4 oed' yn byw o fewn milltir i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi cofrestru mewn dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg, gan gyfrif am 18 % o ddisgyblion yn yr ardal filltir honno.

Mae digon o alw lleol i gefnogi sefydlu dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu plant 4–11 oed yn unig.

Mae absenoldeb meithrinfa yn yr ysgol wedi arwain teuluoedd lleol i chwilio am leoedd mewn mannau eraill. Yn flaenorol, roedd rhai yn cael mynediad at addysg feithrin wedi'i harianny yn Gofal Cwtch Pentrebaen, darparwr ar y safle nas cynhelir, gan nad oedd dosbarth meithrin mewn ysgol o fewn dwy filltir. Mae llawer o blant bellach yn mynd i Ysgol Gynradd Groes-wen gan mai hon yw'r ysgol agosaf sydd â dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg.

## Lleoedd cynradd sy'n cael eu cymryd

Ers blynyddoedd lawer, mae mwy o blant o ddalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi dewis mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol o 60 o leoedd.

Mewn blynyddoedd â nifer uwch o dderbyniadau i ysgolion yn gyffredinol, dewisodd dros 80 o ddisgyblion lleol o'r dalgylch addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae llawer o'r plant hyn wedi mynychu ysgolion eraill, yn aml rhai sy'n agosach at eu cartref neu'r rhai sy'n cynnig dosbarthiadau meithrin.  Mae llawer o blant yn parhau i ddosbarth Derbyn yn yr ysgol lle maent yn mynychu'r feithrin.

Gyda llai o ddisgyblion yn mynd i mewn i ysgolion cynradd ledled y ddinas, mae mwy o deuluoedd yn dewis ysgolion yn agosach at eu cartref, gan arwain at ostyngiad mewn derbyniadau i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof. Er y gallai lleihau capasiti'r ysgol helpu i fynd i'r afael â lleoedd dros ben, ni fyddai hyn yn unol â nod y Cyngor i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae dadansoddiad diweddar o dderbyniadau i'r dosbarth Derbyn yn dangos:

- Roedd dros hanner yr ymgeiswyr a nododd Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fel eu dewis cyntaf yn dod o ddosbarthiadau meithrin yn Ysgol Gynradd Pentre-baen neu Ganolfan Blant Trelái a Chaerau.
- Roedd deg o blant yn dod o feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg eraill, tri o blant yn mynychu lleoliadau cyfrwng Saesneg, a chwech heb fynychu unrhyw ddosbarth meithrin.

